**CPG ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chyfarfod Rhithwir Cydfuddiannol, 26/10/22**

**Yn bresennol:**

Magi Mattinson - Tîm Digwyddiadau Cwmpas
Dan Roberts - Tîm Digwyddiadau Cwmpas (Ysgrifennydd)
Hannah Morris (Siaradwr)
Len Casley
Esther Barnes
Christopher Thomas
Caroline Anne Owen
Kat Watkins
Barbara Sonnex
Robin Lewis
Suzette Phillips
Linda Joyce -Jones
John Meredith
Karen Taylor
Sue Rivers
Tracey Blockwell
Philip M Watson
Derek Walker
Geraint Jones
Huw
Bill Hudson
Cherrie Bija
Canolfan Gymunedol Penderyn
Steffan Davies
Karen Bellis
Sandy Highfield
Susanne Allcroft
Gerald O'Brien
Jean Campbell Leith
William E Wilkins
Paula Lunnon
Adji Fabrice Gnadja
Llyr ap Rhisiart
Nova Barton
Rhys Jones
Lisa Rawlings
Luke Fletcher (aelod o'r grŵp)
Theresa Parsell

Kirsty Davies
Deio Jones
Robert Muza
Sujatha Thaladi
Chris Matthews
Jason Edwards
Annabel Pidgeon
Helen Joy
Sarah Hughes
Pat Powell
Bethan Sayed
San
Louise Gray
David Boyce
Sian Eagar
Jeremy Wadia
Cronfa Fferm Wynt Kate Pen y Cymoedd
Babs Lewis
Tracy Thomson
Carl Postle
Chris Bolton
Judith Cook
Natalie Flowers
Rob Keegan
Sally Meyrick
Barbara Kerridge
Leanne Roberts
Bethan Dennedy
Billy Jones
Julie Roberts
Chris Coppock
Duckham, Kari
Dafydd Thomas
Susannah Allen
James Morgan
Maxine Joseph
Rusna Begum
Huw Marshall
Brenda Davies
Tim Carter
Lucia Balmori

Ioan Bellin
Debra Hanney
Jan Hale
Rhian Stangroom-Teel
Kathryn Hughes
Yamuna Gurung
Megan Thomas
Huw Irranca-Davies (aelod o'r Grŵp)
Sheridan Jones
Helen Gough
Jonathan Evershed
Sharyn E. Williams
Tracey Cooke
Jonathan Morris
Mike O'Hara
Sarah Hart - Rheolwr Hwb CLH NYER
Lois Owens
Shahinoor Alom Shumon
Stephanie Pritchard
Eugene Arokiasamy
Dave Tynan
Sarah M
Natalie Zhivkova
Tracey Alexander
Bethan Webb
Michelle Rowson-Woods
Ryland Doyle
Natalie Sargent
Martin Burger
Ingrid Wilson
Pwyllgor Thornhill
Karen Bonham
Alan Roach
Claire Dodd
Tom Bateman
Angharad Owen
Vikki Howells AS (Cadeirydd)
Leanne Wood (Siaradwr)
Ann Francis (Siaradwr)

*Derbyniwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r grŵp, Mark Isherwood AS a Peredur Owen Griffiths MS*

Agorwyd y cyfarfod gan **Vikki Howells AS**, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol. Soniodd Vikki am y presenoldeb uchel ar gyfer y cyfarfod hwn, a amlygodd y cyfnod hynod anodd y mae pobl yn eu hwynebu a sut mae pobl eisiau dod o hyd i atebion. Mae miliynau'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar fwyd, ac mae tystiolaeth ddiweddar wedi dangos bod llawer o bobl yn torri'n ôl ar wresogi a thrydan. Mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn gwneud popeth y gallwn ni. Trafododd Vikki y model cydweithredol fel un ateb, a sut mae sefydliadau ar draws gwahanol sectorau wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol a chymunedol.

Amlinellodd **Derek Walker**, Prif Weithredwr **Cwmpas**, yr her i'r sector, a beth arall y gall ei wneud. Dywedodd Derek ein bod wedi dod at ein gilydd yn ystod argyfwng Covid, gyda grwpiau cydweithredol a chymunedol presennol a grwpiau cyd-gymorth newydd yn camu i fyny i chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb. Mae angen i ni wneud yr un peth eto - ac mae'r cyfarfod hwn yn nodi'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar draws gwahanol sectorau, a sut y gellir datblygu hyn.

Y siaradwr cyntaf oedd **Ann Francis**, Prif Weithredwr **Cambrian Credit Union**. Rhoddodd Ann dystiolaeth glir o faint yr heriau sy'n wynebu cymunedau. Bu cynnydd mewn ceisiadau benthyg gan aelodau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, ond mae fforddiadwyedd yn heriol. Mae gan bobl sawl ffrwd o gredyd, ac mae cynnydd wedi bod mewn cynlluniau "prynu nawr, talu wedyn" ers Covid y gall pobl golli golwg arnyn nhw. Dangosodd eu Harolwg Nadolig Blynyddol y cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu heriau ariannol - mae 48% yn disgwyl benthyg i dalu biliau, ac fe ddywedodd 760 o'r 780 wnaeth ymateb y bydden nhw'n benthyca er mwyn talu am y Nadolig. Dywedodd 22% y bydden nhw'n defnyddio benthyciwr diwrnod cyflog neu fenthycwyr stepen drws, i fyny o 7% yn 2020.

Mae'r Undebau Credyd yn dod at ei gilydd i gydweithredu a datblygu atebion newydd. Mae ‘Undebau Credyd Cymru’, 8 grŵp o bob rhan o'r wlad, wedi dod ynghyd â strategaeth a chynllun gweithredu a rennir i greu gwerth cymdeithasol, ac maen nhw'n gweithio gyda Cwmpas i ddatblygu cyfansoddiad cadarn newydd sy'n sail i hyn. Mae'r sector yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth a phrofiad er mwyn datblygu mentrau newydd fel Moneyworks Wales gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU, MaPS, TUC Cymru a chyflogwyr y sector preifat a phrifysgolion ledled Cymru. Dyma un brand ar gyfer arbedion a benthyciadau undebau credyd drwy'r gyflogres. Maent hefyd wedi sefydlu Moneyworks Express Loans fel ymateb costau byw i helpu pobl i gael mynediad i fenthyciadau bach (hyd at £500) yn gyflym ac yn fforddiadwy, ac maent yn sefydlu gwobr Moneyworks Wales, er mwyn annog aelodau newydd i ymuno. Maen nhw'n llogi arbenigwr marchnata digidol, yn gweithio ar addysg ariannol i blant, ac yn datblygu llais unedig clir ar gyfer undebau credyd.

Yna clywsom gan **Leanne Wood**, cyfarwyddwr **Ynni Cymunedol Cymru**. Mae Leanne yn newydd yn y swydd, a dywedodd ei bod yn foment fawr i ymuno â'r sector. Maen nhw'n heriau mawr, ond hefyd cyfleoedd. Sut gallwn ni fel sector gyfrannu at yr atebion? Dywedodd Leanne bod grwpiau cymunedol yn rhan annatod o'u hardaloedd lleol ar draws Cymru, ac mae eu haelodau'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae Partneriaeth Ogwen yn datblygu cynlluniau rhannu bwyd, mae Egni Co-op yn datblygu datrysiadau ynni, ac mae eraill yn datblygu clybiau ceir fel atebion i gostau trafnidiaeth. Ar y llaw arall, mae llawer mwy y gellir ei wneud ar raddfa genedlaethol neu bolisi i ddatblygu'r sector hon ar gyfer y dyfodol – yn enwedig drwy gaffael a newidiadau i'r grid cenedlaethol. Mae Leanne eisiau i fwy o bobl gymryd rhan yn y sector ynni/cydweithredol cymunedol, a gall pobl ymuno â'r rhestr bostio, cymryd rhan mewn cynigion cyfranddaliadau cymunedol, cymryd rhan mewn ymgyrchu gwleidyddol a lobïo, a hyd yn oed sefydlu eich grwpiau eich hun. Mae'r grwpiau'n cynllunio ac yn buddsoddi nawr, ac eisiau gweithio gyda'r Ynni Cymru newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Y siaradwr olaf oedd **Hannah Morris** o **Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru**. Cyflwynodd Hannah y prosiect hwn, a gyflwynir gan Cwmpas a'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Cyflwynodd Hannah gyfranddaliadau cymunedol, sy'n fath o ariannu torfol, lle mae'r gymuned yn prynu cyfranddaliadau a gellir eu defnyddio fel menter codi arian i adeiladu cymunedau cryfach, mwy bywiog ac annibynnol. Fe'u defnyddir yn aml i arbed gwasanaethau a mwynderau hanfodol fel cyfleusterau cymunedol, tafarndai, a siopau, neu gallant ariannu sefydliadau newydd, megis ariannu cynlluniau ynni adnewyddadwy a chefnogi prosiectau tyfu bwyd lleol. Mae'r gymuned yn buddsoddi drwy brynu cyfranddaliadau a gwneir penderfyniadau yn ddemocrataidd. Mae elw ar fuddsoddiadau, a all fod cyn lleied â £50, yn gyfyngedig i sicrhau budd cymunedol dros elw ariannol. Mae'r sefydliadau hyn wedi eu gwreiddio yn eu cymunedau ac yn wydn - mae 92% yn dal i fasnachu ar ôl 5 mlynedd, o'i gymharu â 42% ar gyfer cwmnïau preifat. Mae gan y model hwn lawer o fanteision – mae'n rhoi'r gallu i brosiectau godi arian yn gymharol gyflym gyda chyfalaf hyblyg ac amyneddgar y gellir ei ddefnyddio ym mha bynnag ffordd sydd ei angen ar y busnes. Mae'n harneisio cefnogaeth y gymuned, gan arwain at fwy o wytnwch a dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol a'r heriau sy'n ei wynebu.

Yn dilyn y cyflwyniadau, bu trafodaeth a chwestiynau ac atebion ymhlith y cyflwynwyr a'r gynulleidfa, a oedd yn drawsdoriad o sawl sector gwahanol, gyda chynrychiolwyr o bob cwr o Gymru. Cafodd pa un a oedd grwpiau cydweithredol yn cael digon o gefnogaeth ei drafod - dywedodd Derek o Cwmpas eu bod wedi cael cefnogaeth wych gan Lywodraeth Cymru, ond bod llawer o'u gwaith yn cael ei ariannu gan yr UE, a bod angen i'r sector fod yn graff ynglŷn â sut y gall barhau i dyfu er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau. Trafodwyd potensial hydro bach, a dywedodd Leanne Wood fod hyn yn gwneud synnwyr i Gymru, fel y mae prosiectau presennol wedi ei brofi. Trafodwyd cyhoeddiad diweddar prosiect Ynni Cymru, ac mae'r cyfle i ymgysylltu â'r gymuned gael ei ymgorffori yn ei lywodraethiant. Roedd yna gwestiwn ynghylch benthyca arian yn anghyfreithlon, ac fe gadarnhaodd Ann eu bod wedi canfod ei fod yn broblem gynyddol. Ymhlith y pynciau eraill a drafodwyd roedd sut roedd argyfwng costau byw yn effeithio ar ymgysylltu â chyfleoedd ymhlith pobl ifanc, sut y gall cyfranddaliadau cymunedol helpu asedau dan fygythiad oherwydd yr amodau economaidd, a photensial trafnidiaeth gymunedol ac atebion gwresogi cymunedol.

Caeodd Vikki Howells AS y cyfarfod, a gwahoddodd y gynulleidfa i barhau i ymgysylltu â'r Grŵp Trawsbleidiol, wrth iddo barhau i roi llwyfan i fentrau cydweithredol a'r rhai sy'n gweithio i ddatblygu'r model ar draws gwahanol sectorau yng Nghymru.